**Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol**

**Gogledd Cymru**

**Adolygiad Blynyddol 2022/23**

## 1. Cefndir

1.1 O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae gan holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd ddyletswydd statudol i sefydlu a chynnal Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

1.2 Tra mai cyfrifoldeb y Comisiynydd yw hwn yn bennaf mae'n cael ei weithredu mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl.

1.3 Mae'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yng Ngogledd Cymru yn galluogi cynrychiolwyr penodedig o'r gymuned leol i arsylwi, gwneud sylwadau ac adrodd ar amodau unigolion sy'n cael eu cadw mewn dalfeydd. Yn ogystal, mae'n cynnig lefel ychwanegol o warchodaeth gilyddol i garcharorion a swyddogion heddlu drwy graffu'n annibynnol ar driniaeth carcharorion a'r amodau y cedwir nhw.

1.4 Mae'r rheoli o ddydd i ddydd, gan gynnwys recriwtio a threfnu hyfforddiant ar gyfer ymwelwyr â'r ddalfa yn cael ei gyflawni gan Brif Weithredwr y Comisiynydd a'i staff. Darperir yr hyfforddiant cynefino ac adolygu gan Heddlu Gogledd Cymru.

1.5 Mae ymwelwyr y dalfeydd i gyd yn wirfoddolwyr. Maent yn gweithio fel rhan o dîm i fodloni targedau'r rhaglen ymweld. Ar hyn o bryd mae 19 o ymwelwyr dalfeydd yng Ngogledd Cymru, sy'n ymweld â 3 dalfa dynodedig. Mae'r rhain yn y Dwyrain (Llai), yr Ardal Ganolog (Llanelwy), a'r Gorllewin (Caernarfon).

1.6 Mae tîm o ymwelwyr y ddalfa wedi eu penodi i bob Rhanbarth ac mae gan y timau gydlynydd neilltuol sy'n gyfrifol am drefnu'r rota ymweld.

1.7 Mae'r cydlynydd yn ystyried rhywedd a gallu'r ymwelydd i siarad Cymraeg a'i peidio wrth baratoi'r rota.

1.8 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn aml yn recriwtio gwirfoddolwyr i ymweld â dalfeydd ar draws Gogledd Cymru.

## 2. Nifer o ymweliadau

2.1 Gwnaed cyfanswm o 120 ymchwiliadau lles gan Ymwelwyr Annibynnol ar draws Gogledd Cymru yn ystod Ebrill 2022 – Mawrth 2023.


2.2 Bydd y cydlynu ar gyfer pob ardal yn cynhyrchu rhestr o ymweliadau ar ddechrau pob chwarter; bydd ymwelwyr wedyn yn cysylltu â'i gilydd i drefnu amser addas a diwrnod i gynnal yr ymweliad. Mae'r ymwelwyr yn mynd i'r ddalfa mewn parau. Ni fydd Rhingylliaid y Ddalfa yn caniatáu i un ymwelydd fynd i weld pobl yn y ddalfa ar ei ben ei hun.

2.3 Mae'r ymwelwyr yn cael mynediad ar unwaith i'r ddalfa, os oes oedi bydd yr ymwelwyr yn gofyn am esboniad. Mae'r dalfeydd fel arfer yn brysur iawn, bydd rhaid i'r ymwelwyr aros cyn y byddant yn cael eu tywys o gwmpas y celloedd ond ni ddylai oedi fod wrth fynd i mewn i'r ddalfa.


2.4 Gofynnir i Gydlynwyr ac Ymwelwyr amrywio eu hymweliadau gymaint â phosib. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymweliadau ar ddyddiau amrywiol o'r wythnos ac ar adegau amrywiol.

2.5 Mae'r siartiau isod yn dangos y cynhelir ymweliadau bob dydd o'r wythnos ac ar adegau amrywiol. Mae'r holl ymweliadau'n ddirybudd.

*Graff 1 - Adegau ymweliadau ym mhob ardal*




*Graff 2 - ymweliadau ym mhob ardal*




2.6 Mae'r rhan fwyaf o ymweliadau yn digwydd rhwng 9:00 a 21:00 *Graff 1*). ). Mae ymweliadau ar ôl 21.00 yn llai effeithiol gan fod y rhan fwyaf o'r carcharorion yn cysgu. Mae Deddf Tystiolaeth Heddlu a Throsedd 1984 (PACE) yn nodi bod rhaid i garcharor gael cyfnodau o gwsg di-dor. Yn ystod yr ymweliad, bydd Rhingyll y Ddalfa yn egluro darpariaeth PACE i'r ymwelwyr yng nghyswllt cysgu di-dor ac oblygiadau y gall ymweliad gael ar unrhyw ymchwiliad. Rhaid i Ymwelwyr y Ddalfa barchu cyngor Rhingylliaid y Ddalfa.

## 3. Adborth

3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd cadwyd 581 yn y ddalfa yn ystod yr ymweliadau.

3.2 Yn ystod y cyfnod adrodd cadwyd 11,402 o garcharorion yn y Ddalfa yng Ngogledd Cymru lleihad o 159 ers y flwyddyn diwethaf.

3.3 O'r 581 o garcharorion a gadwyd yn y ddalfa yn ystod yr ymweliadau roedd 396 ar gael a siaradwyd â 296, gwelwyd 53 ac mi wnaeth 47 wrthod.

3.4 Cwblheir ffurflen adborth ar ddiwedd pob ymweliad sy'n rhoi manylion y nifer o garcharorion sydd yn y ddalfa, manylion unrhyw faterion a godwyd a manylion unrhyw garcharorion nad oedd modd eu gweld neu a wrthododd ymweliad. Fel arfer mae'r rhan fwyaf o faterion yn cael eu datrys yn ystod yr ymweliad gan Swyddog y Ddalfa.

Bydd unrhyw faterion na ellir eu datrys yn ystod yr ymweliad yn cael eu cyfeirio at Arolygydd y Ddalfa i'w hystyried.

3.5 Y prif reswm nad oedd carcharorion ar gael i gael eu gweld oedd: Eu bod mewn cyfweliad/gyda Chyfreithiwr, yn cysgu, yn cael eu prosesu/eu rhyddhau/eu trosglwyddo neu fod Staff y Ddalfa wedi cynghori'r ymwelwyr bod y carcharor o bosib yn dreisgar.

3.6 Er mwyn rhoi sicrwydd pellach bod gofynion a gofidion y carcharorion yn cael eu hateb cynhelir sampl gan Arolygydd y Ddalfa a SCHTH. Ceir detholiad o adroddiadau adborth wedi eu trawsgyfeirio gyda chofnodion y ddalfa. Mae SCHTh yn falch o adrodd bod pob cais wedi

cael ei drin yn brydlon gyda staff a swyddogion y ddalfa. Mae'n bwysig nodi, serch hynny bod y rhan fwyaf o adroddiadau am amodau a'r ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin yn ffafriol yn y Dalfeydd.

**4. Materion yn codi o'r ymweliadau**

4.1 O'r 120 ymweliad ac o'r 396 carcharor a welwyd, y ceisiadau mwyaf cyffredin oedd rhai am fwyd/diod, materion meddygol, angen gweld cyfreithiwr neu alwadau ffôn. Fel arfer mae'r rhan fwyaf o faterion yn cael eu datrys yn ystod yr ymweliad gan Swyddog y Ddalfa.

4.2 Mae Panel yr Heddlu a Throsedd a'r cyhoedd yn derbyn sicrwydd nad oes materion difrifol wedi eu riportio gan garcharorion yn y dalfeydd yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae Panel Ymwelwyr Annibynnol y Ddalfa yn adolygu pob adroddiad yn rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw dueddiadau, patrymau neu i bwysleisio unrhyw faterion a allai fod heb eu datrys.

**5. Amcanion yn y dyfodol**

5.1 Parhau gyda gwaith effeithiol Cynllun y Ddalfa.

5.2 Recriwtio Ymwelwyr y Ddalfa ar draws Gogledd Cymru yn rheolaidd.

5.3 Cydweithio gyda Grwpiau Ymwelwyr Dalfeydd y Gogledd Orllewin.

5.4 Rhoi cyhoeddusrwydd i Ymwelwyr Annibynnol y Ddalfa ar wefan y Comisiynydd. .

5.5 Gweithio gydag Adran Datblygu a Hyfforddi'r Heddlu i ddarparu hyfforddiant i recriwtiaid newydd i'r cynllun.

**6. GOBLYGIADAU'R ADRODDIAD:**

| | |
|---|---|
| Ariannol | Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynllun fod yn gallu gweithredu fel y blynyddoedd blaenorol a pharhau i gynnal yr un faint o ymweliadau.<br>Dylid cadw costau yn isel gan fod yr holl hyfforddiant yn digwydd yn fewnol. Mae Gogledd Cymru yn cyfrannu at gynhadledd flynyddol Gogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin sy'n rhoi cyfle i'r ymwelwyr rhwydweithio gydag ymwelwyr o ardaloedd eraill. Telir costau teithio ar raddfa AHEM 45cyf. |
| Cyfreithiol | Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddyletswydd statudol i weinyddu a goruchwylio cynllun ymweld dalfeydd annibynnol. |
| Cymuned | Nod y Cynllun ydy darparu sicrwydd i'r cyhoedd bod pobl sydd yn y ddalfa yn cael eu trin yn deg ac yn ddiogel. |
| Risg | Nid oes unrhyw beryglon sylweddol wedi cael eu nodi. |
| Amcanion Heddlu a Throsedd | Mae'r cynllun yn ofyniad statudol Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. |
| | Gobaith y Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yw cynnal aelodaeth gytbwys o wirfoddolwyr sy'n cynrychioli'r gymuned leol ac sy'n dod o bob cefndir cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a Chymreig ond y |

| | |
|---|---|
| | dymuniad yw penodi mwy o aelodau o leiafrifoedd ethnig ac unigolion gydag anableddau. Mae'r nifer o'r aelodau yn siarad Cymraeg, yn enwedig yn ardal y gorllewin. Mae hyn yn hwyluso dewis iaith y carcharorion. |